# Cofnodion Wedi'i Gadarnhau
# Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
# Iechyd Cyhoeddus Cymru
# Cyfarfod Cyhoeddus 16 Mehefin 2022, 09:30
# a gynhaliwyd dros Microsoft Teams

| **Yn Bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Sian Griffiths | (SG) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus) |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) |
| Nick Elliot | (AW) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Rob Bailey | (RB) | Cynrychiolydd y Staff |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Data, Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Liz Heath | (LH) | Cynrychiolydd y Staff |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| John Bolton | (JB) | Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru |
| Mariana Dyakova | (MD) | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Dirprwy Gyfarwyddwr ac Arweinydd Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant. |
| Robin Howe | (RH) | Cyfarwyddwr Heintiau |
| Ed Humpherson | (EH) | Cyfarwyddwr Cyffredinol Rheoleiddio, y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau |
| Caroline Jones | (CJ) | Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Llywodraethu Integredig |
| Louisa Nolan | (LN) | Pennaeth Gwyddor Data |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Sgrinio a Diogelu |

| | | |
|---|---|---|
| | | Iechyd, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Sarah Whitehead | (SW) | Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Mark Bellis | (MB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ymchwil a Datblygu Polisi, Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol. |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Andrew Morton | AM | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

*Dechreuodd y cyfarfod am 09:30*

**KRIC 1/2022 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb, gan nodi bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig.

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cefnogi cywirdeb y cofnodion. Byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl i'r cofnodion gael eu cytuno yn y cyfarfod dilynol ym mis Medi 2022.

**KRIC 2/2022 Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Ddiddordeb.

**KRIC 3/2022 Cyflwyniad / Cyd-destun y Cynllun Tymor Canolig Integredig**

Rhoddodd IB ddiweddariad ar lafar yn nodi manylion cyd-destun y Cynllun Tymor Canolig Integredig: un o themâu'r cynllun oedd gwneud y mwyaf o'r defnydd o ddata digidol a thystiolaeth i wella iechyd a llesiant Cymru. O fewn y thema hon, roedd pedwar maes allweddol:

- Byddai tystiolaeth a dadansoddi'n cael eu blaenoriaethu i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio drwy ei gyfathrebu gydag effaith i wella iechyd a llesiant.
- Byddai cynhwysiant yn cael ei ymwreiddio mewn elfennau digidol, data a gwerthuso i sicrhau ein bod yn lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd cyhoeddus.
- Defnyddio technolegau a gwyddor data sy'n dod i'r amlwg i roi gwybodaeth ar yr amser cywir i weithwyr proffesiynol iechyd cyhoeddus ar gyfer darparu gwasanaethau.

- Defnyddio dulliau digidol ac ystwyth i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr i wella canlyniadau.

Nododd y byddai'r fframwaith ehangach hwn o'r cynllun yn canolbwyntio ar raglen waith y Pwyllgor hwn, gyda ffocws eleni ar yr agenda ymchwil.

Diolchodd SG i IB am y trosolwg.

| **KRIC 4/2022** | **Ystadegau Swyddogol** |
|---|---|

Estynnodd SB groeso i EH, SW a CJ o'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau i'r cyfarfod, a roddodd gyflwyniad i'r Pwyllgor ar Ystadegau er lles y cyhoedd.

Roedd y pwyntiau allweddol o'r cyflwyniad yn cynnwys y canlynol:

- Rôl y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau oedd diogelu'r gwaith o gynhyrchu a chyhoeddi ystadegau sydd er lles y cyhoedd yn y DU. Y weledigaeth gyffredinol oedd y dylai ystadegau fod o fudd i'r cyhoedd.
- Felly, mae'r ystadegau a gyhoeddir yn ased cyhoeddus, gyda'r defnyddwyr yn amrywio o arbenigwyr i grwpiau cymunedol, elusennau a busnesau.
- Mae gwaith y Swyddfa yn cael ei drefnu'n gysyniadol o dan y cod ymarfer ar gyfer ystadegau sy'n cwmpasu tri maes: sut y mae data ac ystadegau'n cael eu cynhyrchu; sut y maent yn cael eu dylunio a'u cyfathrebu; ac edrych ar sut y mae ystadegau a data'n cael eu defnyddio a rôl diogelu'r defnydd o ystadegau mewn trafodaethau cyhoeddus.
- Canolbwyntir ar y cysyniadau o ddibynadwyedd, ansawdd a gwerth.
    - **Dibynadwyedd**: canolbwyntio ar ddarparu tystiolaeth bod sefydliad yn ddibynadwy ac yn arddangos ymrwymiad i ddibynadwyedd.
    - **Ansawdd**: Cyfleu graddau diffygion y data, a'r camau sy'n cael eu cymryd i gau'r bwlch. Roedd hyn yn golygu bod yn glir wrth ddisgrifio o ble y daw'r data, y dulliau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r data, cyfyngiadau'r dulliau hynny, a chyfathrebu'n glir iawn yr hyn a ddywed yr ystadegau, a'r hyn nad ydynt yn ei ddweud.
    - **Gwerth**: Mae cyfrifoldeb ar y sefydliad sy'n cynhyrchu'r ystadegau i ddweud beth y mae'r data'n ei olygu, a darparu mewnwelediad, yn ogystal â sicrhau hygyrchedd a dulliau cyfathrebu priodol.
- Roedd gweithgaredd y Swyddfa yn ystod y pandemig yn cynnwys: cadw trosolwg o'r cynnydd yn y data a oedd yn cael eu cyhoeddi'n gyflym a'r cynnydd yn niddordeb y cyhoedd yn y wybodaeth hon, ac ymyrryd yn gyhoeddus lle bo angen pan oedd yr ystadegau neu eu defnydd yn aneglur neu'n gamarweiniol; datblygu canllawiau rheoleiddio newydd; adolygiadau cyflym i asesu data yn erbyn y Cod Ymarfer ar gyfer ystadegau a gyhoeddwyd mewn modd hygyrch i aelodau'r cyhoedd a chynhyrchwyr y data i gefnogi gonestrwydd a thryloywder.
- Datblygu a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cysyniad o dryloywder deallusol, lle bydd data'n cael eu darparu a'u cyhoeddi gyda'r ffynonellau ac eglurhad o'r cyd-destun i alluogi pawb i ddeall y darlun cyflawn.

Diolchodd SG i EH, SW a CJ am y cyflwyniad addysgiadol.

Trafododd y Pwyllgor:
- Y bwriad i ICC gefnogi egwyddorion y cod ymarfer, ac i gyflwyno hyn yn y gwaith i ddatblygu ei strategaeth ymchwil.
- Wrth adlewyrchu ar ICC yn ystod y pandemig, nododd EH y gydnabyddiaeth bod y cyngor epidemiolegol proffesiynol wedi cael proffil uwch a bod diddordeb dwys yn y budd ehangach i'r cyhoedd, er enghraifft y datblygiad cadarnhaol o ran y defnydd o ddangosfyrddau fel adnodd cyhoeddus defnyddiol. Pwysleisiodd y cyfle i adeiladu ar yr ymgysylltiad hwn gan y cyhoedd yn dilyn y pandemig.
- Llythrennedd digidol a data y boblogaeth a sut yr ydym yn datblygu hyn, gan nodi'r data ymddygiad a'r gwaith mewnwelediad.
- Y cymorth a gynigwyd gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau i ICC, gan ddyfynnu enghreifftiau o sgrinio serfigol lle byddai cefnogaeth i ddeall y negeseuon o'r data wedi bod yn ddefnyddiol.
- Cynnydd yn y defnydd o ffynonellau data newydd a oedd yn llai manwl, fel data'r cyfryngau cymdeithasol, ar gyfer mewnwelediad i iechyd cyhoeddus a darpariaethau iechyd amserol.
- Tryloywder deallusol yng nghyd-destun data cydraddoldeb ac amrywiaeth, a'r angen i gefnogi'r data o gwmpas nodweddion gwarchodedig gyda chyd-destun sydd wedi'i egluro'n dda a mynediad i'r data.

Roedd dau faes o drafodaeth y Pwyllgor y cytunodd EH i ddarparu ymateb iddynt y tu allan i'r cyfarfod y gellid ei ddosbarthu i'r Pwyllgor:
- Mewn byd sy'n llawn data, gyda llythrennedd data digidol yn dod yn fwyfwy pwysig, gofynnodd y Pwyllgor i EH am gyngor ynghylch gwneud y mwyaf o'r amgylchedd hwn sy'n dod i'r amlwg.
- O ran tryloywder deallusol, nododd y Pwyllgor bwysigrwydd ystyried dealltwriaeth sefydliadau iechyd cyhoeddus o'r effaith a'r syniad bod y pandemig yn "foment addysgol". Gofynnodd y Pwyllgor am gyngor gan EH ynghylch sut y gellid defnyddio hyn a manteisio arno.

**Camau gweithredu: EH/LB**

Diolchodd SG i EH, CJ a SW am y cyflwyniad addysgiadol a'r cynnig i ddarparu cyngor ar waith pellach lle y byddai'n ddefnyddiol/priodol.

| **KRIC 5/2022** | **Y Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso** |
|---|---|
| **KRIC 6.1/2022** | **Diweddariad am Gynnydd y Strategaeth** |

Rhoddodd IB ddiweddariad i'r Pwyllgor am y cynnydd o ran datblygiad y Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso, gan ganolbwyntio ar fapio ymchwil ac effaith yr ymchwil hwn.

Amlygodd IB gyfanswm y gweithgaredd ymchwil o fewn y sefydliad, gan bwysleisio'r angen i ystyried sut y gellid mapio'r gweithgaredd hwn ar draws y blaenoriaethau strategol, a sut y gallwn gael yr effaith fwyaf.

Pwysleisiodd y themâu sy'n dod i'r amlwg o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth:- gonestrwydd a thrylowyder; partneriaeth a chydweithio a sut yr ydym yn dylanwadu ar ein cyllidwyr; a mesur a deall ein heffaith.

Camau nesaf datblygiad y strategaeth fyddai dilysu'r gwaith mapio ymchwil parhaus, ac alinio gwaith gyda'r adolygiad o'r Strategaeth Hirdymor, gan eu cysylltu â'n themâu strategol.

Ystyriodd y Pwyllgor:

- Sut y cyflawnwyd y gwerthusiad o ymyriadau, a sut y gallwn ddatblygu system sy'n cynnwys ac yn integreiddio gwaith gwerthuso.
- Awgrym ynghylch datblygu hyb gwerthuso. Cadarnhaodd IB fod tîm bychan o fewn y gyfarwyddiaeth sy'n canolbwyntio ar werthuso. Roedd ei flaenoriaethau ar hyn o bryd yn cynnwys Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan, Strategaethau Llywodraeth Cymru fel 'Pwysau Iach, Cymru Iach', prydau ysgol am ddim a'r cynnig gofal plant.
- Yr angen am waith gwerthuso i edrych ar effaith hydredol ymyriadau.
- Pwysigrwydd mwy o fanylion am effaith yr Ymchwil, gan gynnwys yr effaith ar y system ehangach o ganlyniad i ymyriadau iechyd y boblogaeth. Cytunodd IB â hyn a'r angen i sefydlu dolenni adborth amserol i ddeall yr effaith, yn ogystal â mwy o feincnodi, i ddatblygu dull gweithredu mwy systematig ar gyfer hyn.
- Awgrym i gysylltu â rhwydweithiau eraill sy'n bodoli yng Nghymru.
- Y newid diwylliannol sydd ei angen o fewn y system, a'r angen i ICC nodi'n glir y prif feysydd ffocws a'r blaenoriaethau ymchwil ac i gyfathrebu hyn yn agored a chyson er mwyn ychwanegu gwerth.
- Yr angen i edrych ar arloesedd, fel y cynnydd yn y defnydd o ddata'r cyfryngau cymdeithasol.

Diolchodd SG i IB am y diweddariad.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Dderbyn ac ystyried** y diweddariad ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn, mewn perthynas â'r arolwg o Strategaeth Ymchwil ICC.
- **Nodi'r** gwaith a wnaed hyd yn hyn a rhai o'r themâu sy'n dod i'r amlwg.

| **KRIC 6/2022** | **Proffil Byd-eang** |
|---|---|
| **KRIC 6.1/2022** | **Ymchwil o fewn Labordai Arbenigol a Chyfeirio** |

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad gan MK a RH ar y gwaith Ymchwil, Datblygu a Gwerthuso o fewn Unedau Arbenigol a Chyfeirio yr Is-adran Gwasanaethau Heintiau. [Mae sleidiau ar gael]

Fel rhan o'r cyflwyniad, amlygodd RH yr hyn a ganlyn:

- Prif ffocws yr Unedau Arbenigol a Chyfeirio oedd darparu gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd gwaith ymchwil, datblygu a gwerthuso yn hanfodol ar gyfer datblygu a chynnal gwasanaethau arloesol rhagorol, ac arweinyddiaeth wyddonol a chlinigol yn eu meysydd arbenigol.
- Roedd yr Unedau Arbenigol a Chyfeirio oll yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith Ymchwil, Datblygu a Gwerthuso yn eu meysydd gyda 69 o brosiectau cyfredol ar y gweill.
- Cwblhawyd 29 prosiect yn ddiweddar ac mae cynlluniau i ddechrau 35 o brosiectau eraill.
- Mae amrywiaeth o wahanol fathau o brosiectau, gan gynnwys:
    - Treialon clinigol o dan arweiniad partneriaid allanol neu o fewn ICC
    - Datblygiadau diagnostig neu glinigol o fewn ICC
    - Gwerthuso llwybrau clinigol neu ddiagnosteg newydd dan arweiniad ICC neu bartneriaid allanol
- Prif allbynnau meintioledig y gwaith ymchwil, datblygu a gwerthuso oedd cyhoeddiadau mewn cyfnodolion a adolygwyd gan gyfoedion. Dros y pedair blynedd a hanner diwethaf o 2018 hyd heddiw, mae 145 o bapurau wedi'u cyhoeddi gan y 6 Uned - 5.4 papur fesul uned fesul blwyddyn ar gyfartaledd.
- Gwnaed cyfanswm sylweddol o waith ymchwil, datblygu a gwerthuso o fewn y 6 Uned Arbenigol a Chyfeirio gyda'r Gwasanaethau Heintiau. Roedd yn anoddach mesur yr effaith ehangach, ond gellid ei gweld yn y gwaith arloesol diagnostig a chlinigol o fewn yr unedau a statws cenedlaethol a rhyngwladol nifer o'r Arweinwyr Clinigol a Gwyddonol.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- Ystyried bod y gwaith ymchwil, datblygu a gwerthuso o fewn y maes hwn wedi creu argraff, ac, mewn sawl achos, roedd yn arwain y byd o ran ei effaith.
- Ystyried y sail gyllido ar gyfer y labordai cyfeirio arbenigol. Cadarnhaodd RH fod hyn wahanol ym mhob achos: roedd gan rai gyllid craidd, ac roeddent wedi cronni cyllid gan unedau clinigol i gefnogi eu hehangiad; nid oedd incwm craidd gan eraill, er enghraifft yr Uned Gemotherapi Gwrthficrobaidd Arbenigol, ond roeddent wedi'u hariannu drwy'r incwm ymchwil.
- Ystyried hyn yng nghyd-destun datblygiad strategaeth ymchwil ICC, lle amlygodd y Pwyllgor y cysylltiad â nifer o wahanol gynghorau ymchwil a'r angen i sicrhau bod y strategaeth yn cwmpasu hyd a lled yr holl fathau o waith ymchwil, datblygu a gwerthuso y mae ICC yn ymgysylltu â nhw.
- Ystyried y rhwystrau i waith ymchwil, datblygu a gwerthuso a'r enghraifft o dalu i'w gyhoeddi mewn cyfnodolion.
- Amlygu'r angen i gysylltu'n strategol â phrifysgolion a rolau anrhydeddus.
- Ystyried sut y mae'r tîm yn cydbwyso prif ffocws yr unedau ar ddarparu gwasanaethau gyda'r gweithgaredd ymchwil, a sut y mae'r

gweithgareddau ymchwil yn cysylltu â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig fel bod llinell glir drwy amcanion y sefydliad yn ogystal â gweithgaredd ymchwil. Nododd RH fod y cydbwysedd rhwng darparu gwasanaethau a gwaith ymchwil, datblygu a goruchwylio yn glir oherwydd er mwyn darparu eu gwasanaethau, roedd yn bwysig eu bod ar flaen y gad o ran gwaith diagnostig clinigol a labordai a dealltwriaeth o'u meysydd arbenigol.

- Ystyried pwysigrwydd bod y strategaeth ymchwil cyffredinol yn amlinellu'r amgylchedd a'r seilwaith y byddem am eu gweld ar gyfer y gwaith ymchwil, datblygu a gwerthuso.
- Trafod a oedd angen am strategaeth gyffredinol ar gyfer y meysydd yr ydym yn dymuno canolbwyntio arnynt ar gyfer gwaith ymchwil, datblygu a gwerthuso. Nododd y Pwyllgor fod gwahanol flaenoriaethau'r grwpiau cyfeirio gwahanol a'r gwahanol ddulliau o ddarparu gwasanaethau yn gwneud hyn yn gymhleth ac y dylai bod mwy o ffocws ar sut yr ydym yn cefnogi'r sefydliad i ymgymryd â gwaith ymchwil, datblygu a gwerthuso mewn ffordd integredig a'r egwyddorion sy'n ategu'r gwaith yn hytrach na chanolbwyntio ar feysydd penodol.
- Ystyried cyd-destun ac effaith Brexit, gan nodi'r angen i ystyried hyn i sicrhau ein bod yn cymryd cyfleoedd i sicrhau bod cyllid gan yr UE yn parhau.

Diolchodd SG i RH a MK am y cyflwyniad, a'r diweddariad ar y gwaith Ymchwil, Datblygu a Gwerthuso o fewn Unedau Arbenigol a Chyfeirio yr Is-adran Gwasanaethau Heintiau.

| **KRIC 6.2/2022** | **Cyfleoedd Ymchwil Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd** |
|---|---|

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar gan MD ar Gyfleoedd Ymchwil o fewn Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd.

Rhoddodd MD gyflwyniad i'r Pwyllgor yn rhoi trosolwg byr o'r cyfleoedd o fewn cyd-destun byd-eang [sleidiau ar gael] gan gynnwys:

- Lansio'r Strategaeth Iechyd Rhyngwladol yn 2017, a oedd yn cael ei ddiweddaru a'i adfywio yng nghyd-destun Arolwg ICC o'r Strategaeth Hirdymor, y gwirioneddau yn dilyn covid a datblygiadau byd-eang eraill, gan gynnwys Brexit.
- Crynodeb o'r ymgysylltiad a'r ymchwil rhyngwladol i gefnogi'r cylch crynhoi gwybodaeth a galluogi ymgysylltiad iechyd byd-eang, gan gynnwys partneriaethau a chyfleoedd ar gyfer crynhoi gwaith ymchwil, hyfforddi a gwybodaeth ar draws y sefydliad ac yn rhyngwladol.
- Amlinellu gwaith Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd:
  - Galluogi a hwyluso ymgysylltiad, partneriaethau a chyfleoedd iechyd rhyngwladol / byd-eang ar gyfer crynhoi gwaith ymchwil, hyfforddiant a gwybodaeth ledled y sefydliad a thu hwnt.
  - Rhwydwaith o fwy na 800 o ganolfannau cydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ledled y byd ar draws mwy na 80 o wledydd.

    - Hysbysu a chefnogi datblygiad polisïau, camau gweithredu ac atebion i sicrhau bywydau ffyniannus ac iach ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
    - Gweithio ledled y DU ac yn fyd-eang, gan ddenu a rhannu dysgu, arloesedd, arbenigedd ac arferion da, gan gynnwys y GIG, Llywodraeth Genedlaethol a Lleol, y byd academaidd, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.
- Hysbysu a sbarduno camau gweithredu ac atebion i osod cydraddoldeb iechyd wrth galon holl bolisïau a buddsoddiadau Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru.
- Cryfhau'r achos dros fuddsoddi mewn tegwch o ran llesiant ac iechyd y boblogaeth ar gyfer meithrin Economi Llesiant.
- Cryfhau'r ffocws ar *Iechyd a Thegwch ym mhob Polisi* fel ffordd o gyflawni datblygiad cynaliadwy, gan beidio â gadael unrhyw un ar ôl.
- Gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth, a gyrru buddsoddiad, er mwyn adeiladu capasiti a gwytnwch i atal adfyd, trawma ac anafiadau ar hyd llwybr bywyd.
- Cysylltu gyda grwpiau iechyd y DU, yn rhyngwladol a ledled y byd gan gynnwys Nursing Now, UK Aid, EUPHA, Prifysgol Maastricht, Hub Cymru Africa, IANPHI, ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad, Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop.
- Datblygu catalogau cyllido Ewropeaidd cyn Brexit – wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adolygu ffyrdd o sicrhau nad yw'r cysylltiadau hyn yn cael eu colli.

Diolchodd y Pwyllgor i MD am y cyflwyniad addysgiadol, gan gyfeirio at ehangder y gwaith o fewn y ganolfan gydweithredu, yn enwedig yr amrywiaeth o bartneriaid rhyngwladol.

| **KRIC 7/2022** | **Strategaeth Ddigidol a Data** |
|---|---|
| **KRIC 7.1/2022** | **Diweddariad ar Gynnydd y Strategaeth** |

Rhoddodd IB ddiweddariad ar lafar i'r Pwyllgor ar ddatblygiad y Strategaeth Ddigidol i Gymru Gyfan. Nododd fod hyn yn gwneud cynnydd ac y byddai'n cael ei orffen cyn hir. Ychwanegodd, unwaith y byddai'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau, yna byddai angen ei adolygu yng nghyd-destun ICC ac adeiladu ar y strategaeth o ran yr hyn y mae'n ei olygu i ICC. Byddai hyn yn canolbwyntio ar ddau brif faes; sut y byddem yn ymwreiddio'r egwyddorion ystwyth o fewn y strategaeth gan ganolbwyntio ar sut yr ydym yn dylunio ac yn datblygu gwasanaethau gyda'r defnyddwyr wrth galon hyn; a sut yr ydym yn gwneud y mwyaf o'n data a'n gwaith o'u dadansoddi mewn ffordd ystwyth.

Diolchodd SG i IB am y diweddariad a nododd y byddai diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi.

| **KRIC 8/2022** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
|---|---|
| **KRIC 8.1/2022** | **Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi** |

Derbyniodd y Pwyllgor y cofnodion a'r log gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 09 Mawrth 2022 (Cyf: 8.1 KRIC 2022_06_16).

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09 Mawrth fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y gellid cau dau gam gweithredu yn y log gweithredu.

| **KRIC 9/2022** | **Rheoli Risgiau** |
|---|---|

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y Risgiau Corfforaethol a Strategol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Amlygodd y papur y newidiadau ers i'r Pwyllgor adolygu'r Gofrestr Risgiau Strategol a Chorfforaethol y tro diwethaf.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Ystyried** y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r Gofrestr Risgiau Strategol sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor.
- A rhoddwyd **sicrwydd** iddo bod risgiau Strategol a Chorfforaethol y sefydliad yn cael eu rheoli mewn modd priodol.

| **KRIC 10/2022** | **Trefniadau Llywodraethu'r Pwyllgor** |
|---|---|
| **KRIC 10.1/2022** | **Y Diweddariad Polisi Chwemisol** |

Derbyniodd y Pwyllgor y diweddariad chwe-misol ar y Polisi Corfforaethol.

**Cafodd y Pwyllgor sicrwydd** ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd a wnaed i adolygu polisïau, gweithdrefnau a dogfennau rheolaeth eraill y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd.

| **KRIC 10.2/2022** | **Rhagolwg** |
|---|---|

Derbyniodd y Pwyllgor ragolwg y Pwyllgor (Cyf: 10.2 KRIC 2022_06_16).

| **KRIC 10/2022** | **Materion Gweinyddol i Gloi** |
|---|---|

Unrhyw fater arall: Dim

Gwahoddwyd y Pwyllgor i gynnig adborth ar y cyfarfod drwy e-bost, gan gynnwys materion a weithiodd yn dda ac unrhyw feysydd i'w gwella.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 21 Medi 2022.

*Daeth y cyfarfod i ben am 11:40*